

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 27<sup>AIN</sup> TACHWEDD 2019 YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Elen H Edwards (EHE); Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Mark Davies (MD) a R. Emlyn Williams (REW)

**1.3** Ymddiheuriadau: Gwyn Williams (GW), Garffild Ll Lewis (GLL) a Gwynfor Davies (GD)

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 23<sup>AIN</sup> HYDREF 2019**

EHE yn cynnig ac AV yn eilio eu bod yn gywir.

**4 MATERION YN CODI 3) UCHOD**

7.1: EHE yn codi rheolau sefydlog - *\*item ar yr agenda nesaf.*

5.1: CR yn gofyn am eglurhad – esboniodd EW fod y Cyngor Cymuned yn talu am ail-osod y fainc solar.

MD yn adrodd ei fod wedi bod efo REW yn ymweld â'r safleoedd. Gyferbyn a cornel Tŷ Gôf a ger yr arhosfan bws wrth yr ysgol. Penderfynwyd fod y safle gyferbyn â'r Cwm yn rhu gul. CR/MD/DR i drefnu i ymweld eto cyn y cyfarfod nesaf – *\*item ar yr agenda nesaf.*

7.2: EHE yn codi'r Fforwm Tref a Chymuned, EW wedi mynychu ar ran y Cyngor. EW yn adrodd fod y ffigyrau am gostau cynnal a chadw'r parciau chwarae yn y ward yn uchel iawn ac yn ôl pob tebyg, y byddai rhaid cymeryd y baich yma ymlaen yn y dyfodol. EHE yn adrodd fod gwaith ymchwil pellach yn cael ei gynnal gan Conwy ynglyn â hyn ar hyn o bryd ond fod angen i'r Cyngor Cymuned feddwl am gymeryd y parciau drosodd yn y dyfodol. Trafodwyd ei fod yn statudol fod y Cyngor Sir yn darparu cae chwarae ond ddim offer chwarae.

Rheolau Cronfa Bro Cernyw – EHE am yrru'r rheolau diwygiedig ymlaen i Elwen Owen.

**5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD**

**5.1** Mainc Solar: wedi ei drafod yn 4) uchod.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**6.1** 0/46856: dim sylw i'w wneud, cefnogi'r cais, CR i ddelio.

**7 MATERION Y CYNGOR**

**7.1** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: *\*item ar yr agenda nesaf.*

**7.2** Calendr: pwyntiau pwysig i'r Cyngor eu delio â nhw yn ystod y flwyddyn. Calendr ar agenda yn fisol.

Ionawr: Presept, Cyfrifon,

Chwefror: Sesiwn taro mewn.

Ebrill: Yswiriant, sgipiau i'r pentrefi, awdit, cyfrifon

Mai: Cyfarfod blynyddol

Gorffennaf: Cyfrifon, Datganiad Taliadau

Medi: Cronfa Bro Cernyw

Hydref: Cyfrifon

Tachwedd: Claddu Plant (Holiadur wedi dod i law ar ebost y Cyngor, EHE am ateb ar ran y Cyngor gan fod hwn wedi ei basio yng nghyfarfod y cyngor 1<sup>af</sup> Mai 2019.  
Angen trefnu diweddarau'r safle wê efo'r rheolau diwygiedig ayyb. Pawb i edrych ar y wefan a chael drafodaeth eto cyfarfod nesaf *\*item ar yr agenda nesaf*.

**7.3 Sesiynau taro mewn:** trafodaeth nad yw'r Cyngor yn weledol yn y gymuned a nad ydy llawer o'r cyhoedd ddim yn gwybod beth mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud ar eu rhan er mwyn gwybod beth mae'r gymuned am i'r Cyngor ei flaenoriaethu. Cyfarfod ar ran anffurfiol megis bore coffi er enghraifft. Trafodwyd fod hyn yn rywbeth i'w drefnu ddechrau'r flwyddyn newydd *\*item ar agenda cyfarfod Chwefror*.

**7.4 Adroddiad BDO:** Darlennodd CR lythyr dderbynwyd gan BDO dyddiedig 31<sup>ain</sup> Hydref 2019. Noder yn y llythyr fod angen i'r "hysbysiad diwedd yr archwiliad gael ei arddangos mewn lle amlwg am 14 diwrnod cyn gynted a phosibl, a chyn 30 Medi 2019 fan bellaf". Penderfynwyd fod CR yn arwyddo'r hysbysiad a'i fod yn cael ei roi i fyny heno yn yr hysbysfwrdd yn y Ganolfan, Llangernyw, i'w gadw i fyny am 14 diwrnod. Derbynwyd anfondeb am y gwaith hefyd am £265.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1 Mandad Banc:** EW yn cymeryd amser i ffwrdd o'i gwaith i fynychu apwyntiad efo'r banc dydd Gwener (29<sup>ain</sup> Tachwedd 2019) i fynd ymlaen efo hwn. *\*item ar yr agenda nesaf*.

**8.2 Cyfweliad Banc:** CR yn adrodd fod GD wedi bod yn siarad efo'r banc eto ac wedi cael cadarnhad fod popeth yn iawn. GD am gario ymlaen i fonitro'r sefyllfa.

GD hefyd wedi diweddarau'r sefyllfa ynglyn â TAW Iona Edwards (cyfrifydd) wedi cytuno i wneud hwn ar ran y Cyngor am £10. Manylion DR (LL22 8RE) i'w rhoi i Iona Edwards er mwyn bod yn bwynt cyswllt ynglyn â hwn, os bydd angen.

EHE wedi llenwi datganiad o daliadau a wnaed i gynhorwyr yn ystod y flwyddyn, cyfanswm oedd £0.

## 9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Dim wedi dod i law gan GLL.

### 10 BILIAU

**10.1** Enlli £73.95: cytunwyd i dalu.

**10.2** BDO (gweler 7.4 uchod) £265: cytunwyd i dalu.

**10.3** AV: anfoneb ynglyn â planhigion a blodau ar gyfer y cymunedau £52.67: cytunwyd i dalu.

EW yn adrodd nad yw wedi derbyn anfoneb am y sgipiau eto.

## 11 MATERION LLEOL

**DR** wedi derbyn cwynion o Fedwen Arian, dŵr yn dod i lawr o Crel fel afon yn y tywydd garw yn ddiweddar. Dŵr wedi bod yn llifo i ochrau cefn y gerddi yn Fedwen Arian, tractorau mawr wedi bod yn dreifio'n agos i'r ochr felly wedi achosi llanast. DR wedi cysylltu ac Emyr Jones i reportio, ond heb glywed ymhellach. Cyngor heb fod yn glanhau'r gwter. CR i gysylltu â'r Cyngor i ddilyn hyn fyny.

Tyrchod – problem wedi bod yn y fynwent yn Llangernyw.

**CR** wedi cysylltu â Conwy yn dilyn difrod i bolyn lamp yn y pentref yn ddiweddar ac wedi cael cyswllt mewn hanner awr.

**AV** arwyddion ffordd yn fudur. Hefyd arwydd ildiwch ar y ffordd mewn i'r pentref wedi plygu. AV i gysylltu â Conwy ynglyn â rhain.

**EW** wedi derbyn cwyn am loriau ailgylchu yn mynd ar hyd ffyrdd cul yn yr ardal. Ddim yn gosod y net ar y fan yn ôl yn iawn felly llawer o sbwriel yn disgyn allan o'r cefn ar ôl ei gasglu.

**REW** yn codi fod ffordd Buarth Cerrig yn cau 17<sup>ain</sup> Rhagfyr tan 20<sup>fed</sup> Rhagfyr er mwyn arwynebu. Trafodwyd dylsai arwyddion gael eu gosod o flaen y dyddiad i hysbysu.

## **12 CYFARFOD NESAF**

30<sup>ain</sup> Ionawr 2020

Cyfarfod yn dod i ben 9yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan

### **Eitemau ar agenda nesaf/pwyntiau i'r Cynghorwyr eu gwneud cyn cyfarfod nesaf:**

- Diwygio rheolau ariannol
- MD i arwyddo'r datganiad i gynghorwyr newydd
- Rheolau sefydlog
- Mainc solar
- Calendr
- Diweddarau safle wê
- Sesiynau taro mewn